NHS Wales Employers
Cyflogwyr GIG Cymru

ADSS Cymru
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**COVID a chymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) – mesurau i ddiogelu'r gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Ar 21 Ebrill, cyhoeddodd Vaughan Gething AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Ddatganiad Ysgrifenedig: COVID-19 a chymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) ar y dystiolaeth newydd ynghylch yr effaith anghymesur y mae COVID-19 yn ei chael ar rai unigolion o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME).

Rhoddodd y Gweinidog grynodeb o'r gwaith sy'n mynd rhagddo gan GIG Cymru i arwain y ffordd fel cyflogwr trugarog a gofalgar, drwy gomisiynu rhagor o dystiolaeth a dadansoddiadau i lywio unrhyw gyngor cyhoeddus posibl a ddiweddarwyd ynghylch asesiadau risg, yr angen i hunanynysu neu warchod, risgiau meddygol a chydafiachedd mewn perthynas â phobl o gefndiroedd BAME.

Fel partneriaid cymdeithasol, rydym yn glir bod gennym ddyletswydd gofal tuag at ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac i sicrhau bod polisïau a chanllawiau gwasanaethau cymorth cadarn ar waith i gefnogi cyflogwyr a'n gweithlu ac i ddiogelu eu hiechyd a'u llesiant yn y gwaith.

Rydym hefyd yn glir bod yn rhaid i ni arfer y ddyletswydd hon mewn modd rhagofalus wrth i'r sail dystiolaeth ynghylch effaith wahaniaethol COVID-10 ar aelodau o'n gweithlu ddatblygu o hyd.  Mae hyn yn cynnwys sicrhau y gall cyflogwyr gynnal asesiadau risg priodol ar gyfer yr unigolion hynny a all fod yn fwy agored i niwed yn y gweithle, yn cynnwys y rheini o gefndir BAME.

Mae'n rhaid i ni atgyfnerthu ein hymdrechion i sicrhau bod gan ein holl staff yr ymddiriedaeth a'r hyder i fanteisio ar yr ystod lawn o bolisïau a gwasanaethau cymorth sydd ar waith, ac a ddylai fod ar waith, i gefnogi eu hiechyd a'u llesiant yn y gwaith. Mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau y gall ein staff fanteisio ar y cyfryw wasanaethau heb ofni y gwahaniaethir yn eu herbyn neu y cânt eu trin yn llai ffafriol ar sail unrhyw nodweddion gwarchodedig.

I'r perwyl hwn, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i fanteisio ar y dystiolaeth a'r dadansoddiadau a drafodir yn natganiad y Gweinidog. Bydd gan bartneriaid cymdeithasol sianel agored i ddylanwadu wrth i ni ymgorffori hyn mewn mesurau ymarferol i gefnogi staff yn y gweithle, gan ddefnyddio'r gwaith hwn i ategu gwaith gwell o gasglu a dadansoddi data lleol yn ôl yr angen.

Ar gais y Prif Weinidog, galwyd Grŵp Cynghori COVID-19 ar faterion BAME dan gadeiryddiaeth y Barnwr Ray Singh ynghyd, i gynghori'r Prif Swyddog Meddygol, swyddogion Llywodraeth Cymru ac ymchwilwyr ar y mater hwn. Cyfarfu'r Grŵp hwn am y tro cyntaf ddydd Mercher 29 Ebrill  a bydd Is-grŵp dan gadeiryddiaeth yr Athro

NHS Wales Employers
Cyflogwyr GIG Cymru

ADSS Cymru
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Keshav Singhal yn cwrdd er mwyn datblygu'r ffocws ar y gwaith er mwyn ystyried materion ehangach sy'n gysylltiedig ag asesiadau risg. Bydd hyn yn cyfrannu at waith ymchwil ehangach Public Health England yn y DU, ynghyd â'r gwledydd datganoledig eraill oherwydd efallai na fydd data Cymru yn unig yn cynnwys y niferoedd absoliwt i ddarparu dadansoddiad digon cadarn.

Er mwyn llywio ymateb Llywodraeth Cymru, bydd Grŵp Cynghori COVID-19 ar faterion BAME yn ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid o'r cymunedau BAME, yn cynnwys Fforwm Hil Cymru a chynghorwyr arbenigol eraill yng Nghymru a ledled y DU.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod ein gweithredoedd yn fwy gweladwy, byddwn yn sicrhau y cynhelir trafodaethau rheolaidd ynghylch y dystiolaeth newydd a chamau gweithredu presennol ac unrhyw faterion sy'n codi drwy ein ffora partneriaeth genedlaethol yn cynnwys Fforwm Partneriaeth GIG Cymru a Chyngor Partneriaeth y Gweithlu ehangach. Byddwn yn sicrhau y cynhelir trafodaethau tebyg yn y strwythurau partneriaeth leol priodol ac y defnyddir canlyniadau'r trafodaethau lleol hyn drwy ein rhwydweithiau cyfunol i lywio'r drafodaeth ar lefel genedlaethol er mwyn rhoi tawelwch meddwl i'n gweithlu. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chynrychiolwyr ledled y sector gofal cymdeithasol yn cynnwys cyflogwyr awdurdodau lleol, cyflogwyr yn y sector annibynnol ac undebau llafur i sicrhau ein bod yn diogelu ein holl weithlu ni waeth ble maent yn gweithio.

Dros y diwrnodau nesaf, byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, a hynny gydag unigolion a grwpiau o gefndiroedd BAME, a'n rhwydweithiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ehangach, i sicrhau ein bod yn parhau i ddiogelu'r gweithlu iechyd gofal cymdeithasol cyfan yn ystod y cyfnod eithriadol hwn. Bydd hyn yn ein galluogi i archwilio rhai o'r pryderon sylfaenol a all effeithio'n wahanol ar rannau gwahanol o'n gweithlu.

Rydym yn annog unrhyw aelodau unigol o staff sydd â phryderon penodol ynghylch eu ffactorau risg unigol eu hunain i drafod y rhain ar unwaith â'u rheolwyr llinell neu gyflogwyr, fel y gallant archwilio'r pryderon hyn a thrafod ffyrdd y gellir eu cefnogi yn y gwaith, a lleihau risg bosibl. Gall hyn ddigwydd drwy ailgynllunio rolau, cynnal asesiadau pwrpasol o ofynion, neu alluogi camau adleoli lle y bo'n briodol.

Dylai unrhyw un nad yw'n teimlo'n hyderus ynghylch cysylltu â'i reolwr llinell neu gyflogwr geisio cyngor gan gynrychiolwyr Undebau Llafur lleol, cymdeithas broffesiynol neu drwy ddulliau ei gyflogwyr ar gyfer lleisio pryderon yn y gwaith.